537 Elin-Wyn Williams, Lower Court
572 Bethan Davies, Derlwyn Taf, Backe
574 Dorman Davies, Glasfryn Park, Rhiw'r Orsaf, San Clêr
575 Morfydd Davies, Glasfryn Park, Rhiw'r Orsaf, San Clêr
577 Richard Owen-Thomas, Manarddwylan, Rhiw'r Orsaf
589 James Idris Bowen, d/o Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
600 Telyn-Hâf Thomas, 18 Cae Gwyrdd
602 Cathryn Elward, 18 Cae Gwyrdd
665 Vida Owen-Thomas, Manarddwylan, Rhiw'r Orsaf
673 Iola Wyn, Bryncaerau, Rhiw'r Ostrey
679 Meinir Thomas, Felinfach
745 Tomos Jones, 20 Cefn Maes, Rhiw'r Ostrey
750 Ioan Thomas, 18, Cae Gwyrdd
751 Eric Adams, Richmore House, Rhiw'r Orsaf
764 Bethan Harris, 9 Pen-y-Ffordd
767 Ryan Thomas, 7 Clos Griffith Jones
768 Ellie Thomas, 7 Clos Griffith Jones
778 Ann Jones, Cwmteg, Backe

**Saundersfoot**

454 Melfa Smith, 7 Sandyhill Park
760 Gwilym Lawrence, 41 Bevelin Hall

44 Canolfan Arddio Tafarnspeit, Paul Webb, **Tafarnspeit**

368 Janet James, Dolwerdd**, Talyllychau**

**Talacharn**

47 Hywel Davies - Davies y Gwres
566 Ann Harry, Sunnyhill Cottage, Heol Holloway
584 Pam Jones, 14 Stryd Fictoria, Talacharn
587 Beti Wilding, Ivy Cottage, Stryd Clifton, Talacharn
603 Robert Elward, Tadil
605 Heulwen Elward, Tadil

200 M. Jones, Plas-y-Dderwen, **Talog**

285 Rhythwyn ac Ann Nicholas, Hafan-Deg, **Tegryn**

**Tre Ioan**

677 June Walters, 15 Parc Starling
758 Heather Williams, Lluest, 8 Heol Dyfnallt
808 Nola a Tomi Evans, 49 Maes Macsen, Tre Ioan

**Trelech**

145 Beryl a Meirion Thomas, Penlan
340 Cedric Davies, Awelfa
396 Meinir Davie, Plasnewydd
469 Delyth Jones, Treto Isaf
470 Edith Ridley, 1 Caerwenog
484 Alyson Harries, Dinas Fach
494 Eric Harries, Dinas Fach
540 Islwyn Walters, Nantycyw
640 Eifion a Menna Thomas Jones, Brynsiriol
674 Angela Marie, Yr Hen Swyddfa Bost
776 Emyr Jones, Treto Isaf
777 Liza Jones, Treto Isaf

**Woodstock**

441 Nia Morris, Fferm Woodstock, Woodstock
805 Menna Morris, Fferm Woodstock, Woodstock

472 Hafwen John, Preseli, 28 Cae Gadlas, **Y Bala**

**Y Bontfaen**

474 Sian Elin Jones, Y Grawndy, Llantriddyd
613 Bryan a Mearl Owen, 5 Tyla Rhosyr

358 Sally Evans, Meirion, **Y Glôg**

126 ME a LH Evans
162 E. M. Davies
616 R. Thomas
618 Christian Pris
619 T. & S. Phillips

} Dim cyfeiriad

*Trist yw cydnabod marwolaeth Mr Martin Lloyd o Gilgerran a fu'n aelod o'r Clwb 200 am flynyddoedd lawer. Diolch am ei gefnogaeth a'i gyfraniad i'r Cardi Bach.*

Cyfraniad
Rhiannon Ifan £20
*Diolch yn fawr*

# Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Nofel hanesyddol yw **Y Cysgod yn y Cof** gan Bob Morris a chefais flas anghyffredin arni a hynny am sawl rheswm. Mae'r nofel yn dechrau yn y flwyddyn 2020 wrth i Caerwyn Rowlands ddod dros lawdriniaeth go fawr a effeithiodd ar ei gof. Mae'r meddyg yn cynghori ei ferch Heulwen i 'ddeffro'r cof, procio'r hen atgofion a chael llygedyn o dân o'r lludw.' Cawn ei hanes wrth i'r ddau ymweld â lleoliadau ei orffennol. Merch o Lanrwst oedd ei wraig; bu hi ym mhrifysgol Aberystwyth a lletya yn Neuadd Davies Bryan – y neuadd Gymraeg i ferched cyn agor Pantycelyn - ac fe gwrddon nhw mewn gig Cymdeithas yr iaith yn Eisteddfod Hwlffordd '72. Tri pheth yn gyffredin â mi! Mae llawer o'r penodau yn mynd yn nôl i 1963-64 ac yn y rheini mae cyfeiriadau at ddigwyddiadau hanesyddol yma megis boddi Capel Celyn, ac ar draws y byd megis ethol Lyndon Johnson yn yr Unol Daleithiau, helyntion Gogledd Iwerddon a hanes Rwsia a'r rheiny wedi'u gweu mor gelfydd i'r stori gan ein hatgoffa o hanes y ganrif ddiwethaf. Yn bennaf, ceir dirgelwch a hynny am ferch arall, nid ei wraig. Fe ddigwyddodd rhywbeth mewn gwersyll gwyliau a'r gwasanaethau cudd â'u rhan yn yr hanes. Ceir dyfyniad llenyddol ar ddechrau pob pennod a llinellau o gerdd Gwenallt sydd cyn y ddrama waedlyd:

*'Mae saeth y bwa rhwng ein bys a'n bawd*
*A'r ddawns anwareiddiedig yn ein traed.'*

Nofel ragorol!

Os cofiwch chi, fe soniais am nofel Rebecca Roberts **Curiad Gwag** fis Tachwedd y llynedd a minnau'n meddwl fy mod yn rhy hen i fwynhau stori am hynt a helynt band roc trwm. Mae **Diwedd y Gân** yn ddilyniant iddi a doedd dim bwriad gennyf i'w phrynu er i mi fwynhau'r gyntaf ond yna clywais Bethan Gwanas yn cyfeirio ati fel 'chwip o nofel'. Does dim rhaid eich bod wedi darllen y gyntaf – mae cefndir Sophie ac aelodau'r band wedi'i gynnwys yn ddigon celfydd yn y penodau agoriadol. Mae'r cymeriadu'n effeithiol – dyma i chi ddisgrifiad o rai sy'n *'ystrydebol o ddosbarth canol - yn byw mewn tai llawn carthenni Cymreig, yn mynd i'r capel, yn canu cerdd dant ac yn carafanio yn y Steddfod a'r Sioe.'* Digon tebyg i lawer o ddarllenwyr Y Cardi Bach mae'n siŵr! Erbyn yr ail nofel hon mae Sophie wedi darganfod ei theulu gan brofi '*bodlonrwydd cynnes braf y teimlad o fod yn perthyn' ond* daw heriau eraill i'w rhan sy'n mynd â hi i Baris a Philadelphia ac i fyd tywyll y cyfryngau cymdeithasol a'u hadolygiadau hallt sy'n codi amheuon pwy fyddai'n gyfrifol am ei herlid. Nofel ddifyr sy'n trafod sawl thema dwys ac a fyddai'n apelio at gynulleidfa iau 16+ - fel y nodir ar y clawr.

Cyfrol roedd yn rhaid ei chael yw **Hoff Adnodau'r Cymru** a olygwyd gan y Parch Beti Wyn James gyda sawl un o fro'r Cardi Bach wedi cyfrannu ati. Ceir ynddi glytwaith o 'brofiadau personol – o'r dwys i'r digri...yn seiliedig ar adnodau o'r Beibl.' Mae sawl un yn deimladwy megis cyfraniad nodedig Meilir Tomos sy'n adnabyddus i ni am ei ddawn gerddorol a'i waith gwirfoddol ac ysgrif bersonol Alun Lenny. Mae'n gyfrol i bigo mewn iddi a'i chadw wrth erchwyn gwely a byddwn yn sicr yn gwneud defnydd helaeth ohoni mewn gwasanaethau ym Methlehem Newydd.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO




DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac
ystafelloedd ymolchi ar agor



Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf



Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn Yr Hen Ysgol gan Eileen. Cofiwyd at Heulwen yn yr ysbyty a dymunwyd yn dda i Annalyn a Rhian Williams sy'n anhwylus.

Yn dilyn materion busnes, yn ddifyr iawn, croesawodd Eileen y siaradwr gwadd, sef Tudur Dylan Jones. Cychwynodd ei anerchiad trwy ddangos llyfr, "Seryddiaeth y Seryddwyr" gan John Silas Evans, offeiriad yn Eglwys Llanrhaeadr ym Mochnant. Cyhoeddwyd y llyfr dros ganrif yn ôl ac ynddo ceir manylder rhyfeddol am y sêr a'r planedau yn cynnwys union ddyddiadau Trosiant Gwener, digwyddiad pur anaml yn y gofod. Fe greodd ddarlun o'r sêr a phlanedau ar nenfwd yr eglwys ond peintiwyd drostynt ers blynyddoedd. Yna bu Tudur Dylaan yn son am ddigwyddiadau ar ddyddiad penblwyddi a defnyddio dyddiad penblwyddi nifer o'r aelodau. Roedd yn syndod faint o gyd-ddigwyddiadau oedd!

Diolchodd Nia iddo ar ran y Gangen. Rhoddwyd y wobr raffl gan Ann Morris ac fe'i henillwyd gan Doreen. Mwynhawyd lluniaeth blasus a ddarparwyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Diolch iddi hi unwaith eto.

**Clwb Darllen**

Cyfarfu'r Clwb Darllen ar Ebrill 7fed I drafod "Salem a fi" gan Endaf Emlyn. Cafwyd trafodaeth ddifyr gyda barn amrywiol gan yr aelodau am y gyfrol. Bydd y Clwb Darllen yn cyfarfod nesaf ar Fehefin 16eg ym Methlehem Newydd am 7 o'r gloch pan fyddwn yn trafod nofel Newydd Neil Rosser "Wythnos Ryfedd Gwilym Puw" a'i gyfrol am ei ganeuon "Ochor Treforys o'r dre." Croeso i aelodau newydd.

## Cangen Gronw

Yn Amgueddfa Rheilffordd y Cardi Bach yn Login oedd cyfarfod mis Mawrth.

Llywyddwyd gan Meinir a chroesawodd y gŵr gwadd sef Emyr Phillips. Nid oedd angen ei gyflwyno gan ei fod yn adnabyddus i bawb. Mae Emyr yn berson brwdfrydig iawn ac un o'i hoff bethau yw rheilffordd y Cardi Bach. Gwelson bod ei wybodaeth yn eang a'i ddiddordeb yn ddiddiwedd.

Mae eleni yn flwyddyn bwysig iawn i'r rheilffordd gan bod 150 blwyddyn ers agor y lein i deithwyr yn 1875. Cawsom hanes John Owen sefydlydd y rheilffordd. Roedd am weld gwell trafnidiaeth o'r cwarel llechi yn Glog a'r gwaith plwm yn Llanfyrnach. Pan fu farw John Owen yn 1886 cymerwyd y gwasanaeth drosodd gan G.W.R. (Great Western Railway). Dyna pryd y seisnigeidiwyd y geiriau Glouge a nid Glog. Soniodd Emyr am sut y sefydlwyd y gwahanol orsafoedd o Aberteifi lawr i'r Hendygwyn ar daf. Hefyd dangosodd nifer o hen ffilmiau yn cynnwys y daith olaf yn 1962. Daeth rhain a nifer o atgofion yn ôl i'r aelodau.

Diolchodd Meinir i Emyr am brynhawn pleserus iawn. Synnwyd yr aelodau ar gynnwys yr amgueddfa - modelau o'r rheilffordd â'r gwahanol orsafoedd, lluniau a nifer fawr o drysorau, amryw wedi ei rhoddi .

Yn dilyn cafwyd tê a chacenau sbesial iawn. Diolchodd Meinir i Peter a Dawn Towns am ei croeso twymgalon. Mwynhawyd y cacennau yn fawr iawn. Diweddglo i brynhawn arbennig.

Cofiwch bod dyddiau agored gyda'r amgueddfa ar ddydd Sadwrn a dydd Sul 12fed a 13eg Gorffennaf. Yn sicr mae yn werth ymweliad.




Emyr Phillips yng nghwmni aelodau'r gangen

## Cangen Beca

Prynhawn Iau, Ebrill 10fed, mwynhaodd aelodau'r gangen brynhawn yng nghwmni Llinos Twigg. Mae Llinos yn fedrus iawn yn gosod blodau, a gwnaeth pawb fwynhau yn ei gwylio wrth ei gwaith, a'r canlyniadau prydferth dros ben.
Bu Rhian Ditcher, Brenda Bowen, a Hilary Davies yn ddigon lwcus i ennill y blodau ar y raffl.

BELLISSIMO
Blodau gan Kathy Bizzotto (Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur.
Defnyddir blodau tymhorol lleol.
Ffôn: 07944 248973
e-bost: kathbizzoto@gmail.com

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Bydd cyfarfod mis Mai yng Nghaffi Beca pan fyddwn yn dewis syddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn ogystal a threfnu rhaglen y flwyddyn.

Pawb wedi mwynhau paned a sgwrs cyn troi tuag adre.



Llinos Twigg a fu'n arddangos blodau




Fflan Yogwrt Eirin Gwlanog

**CYNHWYSION**

110g/4 owns o fargarîn
2 lwy fwrdd o surop aur
280g/10 owns o fisgedi sinsir
140g/5 owns jeli blas eirin gwlanog - torri'n giwbiau
225g/8 owns eirin gwlanog wedi'i sleisio
2 bot o yogwrt eirin gwlanog neu mafon
150ml/¼ pt hufen dwbl i'w addurno

**DULL**

Toddwch y margarîn gyda surop mewn sosban.
Tynnwch oddi ar y gwres a chymysgwch fisgedi wedi'u malu. Cymysgwch yn dda.
Rhowch y gymysgedd mewn tun fflan a'i wasgu'n gyfartal dros y gwaelod a'r ochrau.
Toddwch jeli mewn dŵr berw (235ml/8fl oz) - gadewch nes ei fod wedi tewhau heb setio.
Cadwch rhai eirin gwlanog i'w haddurno, torrwch y gweddill yn fân a'i wasgaru dros y cas bisgedi.
Chwisgwch yr iogwrt i mewn i'r jeli a'i arllwys i'r cas bisgedi.
Rhowch i oeri yn y rhewgell ac addurnwch gyda hufen.

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

## SILLAFU

Edrychwch ar y geiriau a ganlyn a thanlinellwch y ffurf gywir:-

| | | |
|---|---|---|
| 1. | cymhleth | cymleth |
| 2. | ystyrrir | ystyrir |
| 3. | cyd-fyw | cydfyw |
| 4. | ers meitin | ers meityn |
| 5. | chwibanodd | chwibannodd |
| 6. | telynau | telynnau |
| 7. | ffrwydrad | ffrwydriad |
| 8. | diwidrwydd | diwydrwydd |
| 9. | crynhodeb | crynodeb |
| 10. | darlunnir | darlunir |
| 11. | ruban | rhuban |
| 12. | uwch ben | uwchben |
| 13. | diwylliannol | diwyllianol |
| 14. | cloion | cloeon |
| 15. | ehangderau | eangderau |
| 16. | Gorffenaf | Gorffennaf |
| 17. | cynyddu | cynhyddu |
| 18. | tyddynwr | tyddynnwr |
| 19. | gwaeddu | gweiddi |
| 20. | derbynnir | derbynir |
| 21. | ffynonellau | ffynnonellau |
| 22. | torir | torrir |
| 23. | prinnaf | prinaf |
| 24. | cylchgronnau | cylchgronau |

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# MEIDRIM

**Henoed**

Croesawodd Glyn James ein gŵr gwadd sef Dr Glanmor Rees, gynt o Meidrim. Bu'n siarad â ni am ei waith fel pennaeth a gwyddonydd biofeddygol yn Ysbyty Glangwili. Roedd yn gyfrifol am ymchwilio i effaith "aspirin" i helpu clefyd y galon. Erbyn hyn mae wedi ymddeol ond yn dal ynghlwm â gwaith St David's Medical Foundation yn Abertawe.

Gan ei fod wedi ei eni yn Meidrim, roeddem i gyd mor falch ohono. Diolchwyd iddo gan Meirion Morris.

Mis nesa, ar Fai 6ed bydd Mr Brian Jones (Castell Howell) yn dod i siarad â ni.
Wrth y te - Sheila Jones, Ambrose Lewis, Arwyn Jones a Lawrence Thomas.
Yn rhoi raffl - Jean Howell, Meirion Morris, Eirwen Davies a Lynda Newton.

## *Priodas Platinwm*

Llongyfarchiadau i dat a mam, Danny a Lynda Newton ar ddathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol ar y 14eg o Fai.

Mae dat hefyd yn dathlu ei benblwydd yn 95 ar y 9fed o Fai a bydd mam yn dathlu ei 90 ar y 20 o'r mis. Dymuniadau gorau a chariad mawr oddi wrth Clive, Maureen, Wendy, Cheryl a'r diweddar Roy, yr wyrion a'r gorwyrion i gyd ymhell ac agos.

## *Penblwydd Hapus yn 70 oed*



Penblwydd Hapus iawn i Roger Davies, Maes-yr-Hedydd, Meidrim a oedd yn 70 oed ar 17eg o Ebrill. Llawer o gariad oddi wrth y teulu i gyd xx

# RHYDWILYM

Diolch i'r Parch. Wyn Thomas ar Parch. Ken Thomas am ddau wasanaeth bendithiol iawn yn ddiweddar.

Mai
4ydd: Cymun - Parch Catrin Thomas - 10.30
18fed: Natalie Morgan - 10.30.
Mehefin
1af: Cymun - Shan Jones - 2.00.
15fed: Brian Llewelyn ar teulu - 10.30

Ar ôl cyfnod o bum mis, braf oedd bod yn ôl yn y capel unwaith yn rhagor. Braint y Parch Ken Thomas oedd cynnal y gwasanaeth cynta ar ôl agor y drysau. Mae'r cyfan yn edrych yn hyfryd. Diolchwn i Ifan Davies am ei holl waith ar y capel, y stabal, a Tŷ Bet.

## *Penblwydd hapus yn 80 oed*



Dymuniadau gorau ar ei phen-blwydd yn 80 oed ym mis Ebrill i Beryl John, Llanycefn.

Llongyfarchiadau mawr a llawer o gariad oddi wrth y teulu.

# SAN CLER

Trist clywed am farwolaeth Mrs Scourfield, Llanerch, Heol Dinbych y Pysgod. Cydymdeimlwn â'i merch Stephanie, a'r teulu ar eu colled.

....hefyd, cydymdeimlwn â theulu Larry Stranger, Little Bishop's Court a fu farw yn 68 oed ar Fawrth 6ed. Cofiwn am ei wraig Ros, a'r plant Craig a Cerys a'r teulu yn eu hiraeth.

....hefyd, clywsom am farwolaeth Sara - Lynne Lewis, Green Park Terrace ar Fawrth 7fed. Roedd Sara-Lynne yn enedigol o San Cler, o deulu adnabyddus,

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

yn enwedig ei thadcu, Stanley Phillips oedd â busnes ffotograffiaeth yn y dre ac a oedd wedi cofnodi llawer o hanes San Cler yn ei luniau. Dilynodd Sara-Lynne ei thadcu drwy ddewis gyrfa fel ffotograffydd a roedd hi eto yn adnabyddus am ei gwaith. Cydymdeimlwn â'i phartner Jerry, ei merch Lara, ei merch faeth Salinee, ei chwaer Anne-Marie a'i modryb Stella Griffiths ar eu colled.

**Y Gât**

Rhyw ddwy flynedd yn ôl erbyn hyn, cysylltodd Amelie ac Ella gyda Chyngor Tref Sanclêr gydag awgrym i drefnu gweithgaredd Casglu Sbwriel yn y dref. Roeddynt wedi llunio posteri i'w defnyddio hefyd. Disgyblion yn Ysgol Griffith Jones oeddynt ar y pryd.

O ganlyniad, cawsant wahoddiad gan y Maer, y Cynghorydd Annalyn Davies, i ddod i ymweld â Siambr y Cyngor a Pharlwr y Maer. Bu'r ddwy mewn cysylltiad gyda'r Maer o hynny ymlaen.

O dipyn i beth, yn dilyn i fyny i'w hawgrym, sefydliwyd Hwb Casglu Sbwriel yn Y Gât ar gyfer y pwrpas yma. Mae modd i unrhywun neu unrhyw fudiad ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael yn rhad ac am ddim. Cysylltwch gyda Rheolwr Y Gât i drefnu a llenwi'r ffurflen bridol. gate@stclearstowncouncil.co.uk




Yn y llun fe welwch Amelie ac Ella gyda'r Maer cyn iddynt gymryd rhan yn y digwyddiad Glanhau Cymru oedd wedi'i drefnu gan Cadwch Cymru'n daclus. Da iawn ferched am ddangos sut ymroddiad i gadw Sanclêr yn ddi-sbwriel.

## PWLL TRAP

Penblwydd Hapus i Delyth Evans, Crud y Wawr a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 65 oed ar Ebrill 27ain. Hefyd, bydd Delyth, a'i gŵr John, yn dathlu eu Priodas Ruddem ar Fai 4ydd. Llongyfarchiadau mawr.

Croeso cynnes i Bwll Trap i Steve a Dawn John a'r teulu sydd wedi symud i fyw yn Llysmeurig.

**Bethlehem Newydd**

Cafwyd oedfa hyfryd o dan ofal y Patch Irfon Roberts, Aberteifi, ar Fawrth 23ain.

Ar Sul y Mamau cafwyd oedfa gan yr aelodau i ddathlu Sul y Mamau. Cafwyd myfyrdod diddorol gan Rhodri yn son am y traddodiad o forynion a gweision yn dychwelyd i'w mam eglwys ar Sul y Mamau. Cyfeiliwyd gan Hefina. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan a gweini paned ar ddiwedd yr oedfa.

Bu'r aelodau eto yn cymryd rhan yn oedfa gymun Ebrill 6ed. Diolch i bawb am eu gwaith ac i Hilary am gyfeilio.

Cynhelir sesiwn stori a chân ym Methlehem Newydd o dan arweiniaid Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr. Mae nifer o blant bach a'u gofalwyr yn mynychu a braf yw gweld hyn.




Croeso i bawb i'r gyngerdd drosdd. Bydd yr elw tuag at Eisteddfod y Garreg las.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dwr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk




**Tŷ Croeso**



Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu wyau Pasg i Apêl Tŷ Croeso ac yn arbennig am gyfraniad sylweddol Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi, dan ofal y Parchedig Sian-Elin Thomas. Dosbarthwyd yr wyau i blant sydd yn Lloches y Gwragedd, Caerfyrddin; Plant mewn gofal yn y gymuned; Cartrefi Preswyl Fronhaul a Brookfield House yn Heol yr Orsaf Sanclêr; Cartref i blant yn Llangynin a Banc Bwyd Eglwys Crist yng Nghaerfyrddin.

# BLAENWAUN

**Moriah**

Llongyfarchiadau i Brian Morgan, Cadwyn Aur, sydd newydd ddathlu ei benblwydd yn 70 oed. Pob dymuniad da ac iechyd da i'r dyfodol.

Diolch i Nigel Davies, a'r Parchedig Gareth Ioan am eu gwasanaeth mis diwethaf.

Trefn yr Oedfaon.
Ebrill 20fed: 10-30 oedfa undebol.
Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau Bryn Iwan a Blaenycoed dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan.
Mai 4ydd: 10.30 - Parchedig Gareth Ioan
Mai 18fed: 2 o'r gloch - Oedfa Gymun - Dafydd Evans.
Croeso cynnes i bawb.

Rydym yn edrych ymlaen at gwmni John Phillips, o Bancyfelin, yn fuan. Ffrind cefnogol iawn i'r eglwys.

**Dr Meurig Davies**

Gyda thristwch mawr rydym yn cyhoeddi marwolaeth Dr Meurig Davies a fu farw'n heddychlon yn Ysbyty Llandochau ar yr 20fed o Fawrth 2025, yn 83 mlwydd oed. Roedd Meurig yn Ffisegydd gweithgar yn Ysbyty Felindre am dros ddau ddegawd.
Fe'i magwyd yn Y Glôg cyn i'r teulu symud i Banc Villa a wedyn Heol Shôn, Blaenwaun (bu mam Meurig - Anna M Davies yn dysgu am flynyddoedd lawer yn Ysgol Cwmbach).
Roedd yn ŵr ymroddedig i Mary, yn frawd annwyl i Gareth, yn frawd-yng-nghyfraith i Pat, Ian a Gill, yn dad gofalgar i Martin, Graham ac Anna ac yn dad-cu i Rebecca, Carys, Alys, Ben a Noah.
Mae'n gorffwys yng ngofal Cyfarwyddwyr Angladdau Coles (Llandaf) tan y gwasanaeth ar yr 17eg o Ebrill yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd (teulu yn unig).
Cynhelir cinio o goffau ar ôl yr angladd.









# BANCYFELN

**Cana**



Plant Ysgol Sul Cana yn paratoi nythod siocled ar gyfer y Pasg!


**Gibeon**

Cafwyd oedfa Gymun ar fore Sul, Mawrth 16eg. Defnyddiwyd oedfa dydd Gweddi'r Byd a chafwyd oedfa fendithiol. Diolch i aelodau Gibeon a Bethlehem Newydd a fu'n cymryd rhan. Gweinyddwyd y Cymun yn hyfryd gan Annalyn a braf iawn oedd ei chael yn ôl yn cymryd rhan yn yr oedfa. Diolch arbennig hefyd i Hilary a fu'n cyfeilio. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd cymdeithasu dros baned.

Cafodd plant yr Ysgol Sul trît yn dilyn yr Ysgol Sul ar Fawrth 23ain drwy fynd am goffi fel yr addawyd iddynt yn yr Oedfa Nadolig. Cafwyd tipyn o hwyl.



**LANSIO CYFROL NEWYDD BETI WYN**



Lansio Cyfrol Newydd Beti Wyn yn festri Heol Awst - 'Hoff Adnodau'r Cymry'. Ar gael yn eich siopau lleol.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedigion Wyn Thomas a Ken Thiomas am eu gwasanaeth yn ddiweddar, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-

Mai
4ydd: Catrin Thomas - Cymun 2.00
18fed: Natalie Morgan - Cwrdd 2.00
Mehefin
1af: Shan Jones - Cymun 10.30
15fed: Gareth Ioan - Cwrdd 2.00
29ain: Peter Thomas - Cwrdd 2.00

**Cartref Glyn Nest**

Aeth 12 o aelodau Calfaria i gynnal oedfa yng Nghartref Glyn Nest ar brynhawn Sul, Mawrth 16eg. Gwnaeth Olwen, un o'r preswylwyr, estyn croeso cynnes i ni yno a chafwyd darlleniadau gan Beti a Nigel, gweddi gan Betty, darllenwyd barddoniaeth gan Ceirios a Sian, cyflwynwyd yr emynau gan Mefin, Les ac Eurfyl, cyfeiliwyd gan Ceirios a chanwyd caneuon swynol gan Beti a Sian. Cafwyd oedfa fendithiol iawn yng nghwmni preswylwyr y cartref a diolchodd Beti Thomas (gynt o San Cler) yn ddiffuant i ni am ddod i gynnal oedfa yno unwaith yn rhagor. Roedd yn hyfryd i sgwrsio gyda hwy ar y diwedd a chafwyd cyfle i gymdeithasu ymhellach drwy fwynhau cwpaned o de a danteithion blasus. Edrychwn ymlaen i gynnal oedfa arall yno'n fuan.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Margaret Williams, Cilowen wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar

**Penblwydd**

Dymunwn benblwydd hapus i Delyth Morris fydd yn 60 oed ar Mai 13eg.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Wright ar lwyddo yn ei arholiadau rhingyll yn ddiweddar. Mae Simon, Faith, Noah, Carys a mamgu yn falch iawn ohonot Dafydd ac yn dymuno bob llwyddiant i ti yn dy yrfa gyda'r heddlu.

## Canolfan Ffynnonwen

Cafwyd hwyl arbennig ar Noson Cawl a Chân, ar nos Iau 27ain Mawrth. Wedi bwyta llond bol o gawl a tipyn o ddanteithion roedd yn amser am yr adloniant.

Dosbarthwyd taflenni geiriau a cafwyd hwyl yn cyd ganu gyda Ceirios Jenner wrth yr allweddellau. Tro Bertie oedd hi nesaf a gwnaeth ganu'r trwmped i'n diddanu. Gorffennwyd y noson gyda Beti, Sian a Mari yn ein swyno gyda'u lleisiau hyfryd. Codwyd swm sylweddol er côf am Hywel Passey. Y bwriad yw prynu mainc a'i gosod mewn lle amlwg yn Login.

Cynhelir ein cyfarfod blynyddol ar nos Fawrth 20fed Mai am 7.30. Cofiwch gefnogi.

## Cylch Meithrin Ffynnonwen





Bu'r Cylch am drip i Gartref Henoed y Garreg Lwyd. Y plant a'r henoed wedi mwynhau.



Pob lwc i'r plant uchod sydd yn mynd i Ysgol Bro Brynach yn llawn amser ar ôl y Pasg.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Ebrill 6ed dan ofal Miss Donna Gerge ac oedfa ar 13eg dan ofal y Parch. Huw George. Diolch iddynt am eu gwasanaeth.

**Trefn oedfaon mis Mai**

4ydd: Oedfa gymun dan ofal Parch. Alwyn Daniels -10.30
11eg: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30

Falch i ddeall bod Susan Phillips adref ar ôl cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

### *Penblwydd Hapus yn 70 oed*



Penblwydd hapus i Beryl Williams, Ledbury, gynt o Maesylan ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar Ebrill 23ain.

Dymuniadau gorau oddi wrth Gareth, Harri a Lucy xxx

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

SiopSiân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych
SA41 3QE

Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

# CWM MILES

Disgwylir y Parchedig Euros Jones Evans ar 27ain Ebrill ac Arwel Evans ar 18fed Mai. Y ddwy oedfa yn oedfaon cymun i ddechrau am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

# LLANWINIO

**Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026**

Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd Llanwinio, nos Fawrth, Mawrth 18fed 2025 i sefydlu pwyllgor i gynrychioli ardaloedd Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach ar gyfer codi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol 2026.

Yn bresennol oedd Geraint Evans, Meryl James, Meirwen Evans, Wyn Evans, Ceri Saer a Delyth Bebb. Roedd Eurfyl Lewis, is-drysorydd y pwyllgor cyllid canolog hefyd yn bresennol i roi gwybodaeth gyffredinol a'r targed ariannol i'w godi sef £4000.

Etholwyd y swyddogion canlynol:
Cadeirydd - Geraint Evans; Ysgrifennydd - Wyn Evans a Meirwen Evans – Trysorydd.

Mae croeso i unigolion gyfrannu at y gronfa drwy gefnogi'n ariannol, noddi cystadleuaeth neu gefnogi'r gweithgareddau a drefnir. Cysylltwch gyda'r swyddogion am fwy o fanylion.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 6ed o Fai yn neuadd Llanwinio am 7.30. Dewch a syniadau am weithgareddau. Croeso cynnes i bawb.

# LLANBOIDY

**Penblwydd Hapus**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Nansi Evans, Cwmfelin Mynach sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ym Mis Ebrill.

**Chwaeroliaeth**

Cyfarfu'r aelodau ar Fawrth 19eg o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb i'r cyfarfod a bu'n cydymdeimlo â Rhiannon Davies wedi iddi golli ei brawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Yna croesawodd y gwestai, sef Janet Harries a chafwyd arddangosfa goginio ganddi. Bu'n dangos prydiau sawrus a melys ac hyfryd oedd cael blasu rhai ohonynt. Rhoddodd ddau o'r prydiau i'w rafflo a Myfanwy a Delyth oedd y rhai lwcus. Diolchodd Wenfys i Janet ac roedd y te yng ngofal Susan Davies a Heulwen Evans.

**Trinity**

Ar Sul, Ebrill 6ed cafwyd hanes Rachel Evans neu Rahel o Fôn o dan arweiniad y Gweinidog Guto Llywelyn. Cymerwyd rhan gan rhai o'r aelodau yn adrodd hanes y wraig ddawnus hon. Dechreuodd bregethu'n 13 oed a bu'n pregethu ar hyd a lled Cymru cyn symud i America lle parhaodd i bregethu'r efengyl a chreu argraff mawr ar ei chynulleidfa.

**Sefydliad y Merched**

Ar Fawrth 13eg, bu Susan Evans yn rhoi arddangosfa o sut i wneud cardiau cyfarch. Diolchodd Denise iddi ac roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Jan a Gwen.

# LLANGYNIN

**Llongyfarchiadau**





Ganwyd Ezra Lleu John yng Nghaerfaddon ar yr ail o Chwefror 2025 yn 8 pwys 5 owns i Dylan a Ryan John o Uplands, Llangynin. Hoffent ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi dymuno'n dda iddynt.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Nos Fercher, Mawrth 12fed, daeth Bois y Frenni i gynnal noson o adloniant yn Neuadd y Bryn. Cafodd aelodau'r Gymdeithas Gymraeg fodd i fyw yn gwrando ar y bechgyn yn cyflwyno nifer o gerddi ysgafn a doniol a luniwyd gan W.R.Evans, a fu am flynyddoedd yn arweinydd y parti. Mae'r grŵp o fechgyn amryddawn yn arbenigo mewn adloniant ysgafn ac yn adnabyddus am eu dawn i hala pawb i chwerthin gyda'u storïau a'u jôcs doniol.









Diolch i'r bois am noson wych a llond bol o chwerthin cyn cloi'r noson gyda phaned a chlonc.

**Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026**
Pwyllgor Apêl Llangynin.

Cynhaliwyd cyfarfod i sefydlu Pwyllgor Apêl Llangynin yn Neuadd y Bryn ar Ebrill 2ail.. Yn dilyn cyflwyniad gan Eurfyl Lewis a Cleif Harpwood, etholwyd y swyddogion canlynol -
Cadeirydd - Marian Thomas
Ysgrifenyddion - Rhian White a Llinos Mair Thomas
Trysorydd - Kevin Roberts

Trafodwyd nifer o syniade codi arian a bydd y pwyllgor yn cwrdd eto'n fuan i drefnu gweithgaredde amrywiol. Pob dymuniad da i'r swyddogion a'r pwyllgor.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs.Eirlys Caswell, Berthlwyd, a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar Ebrill 13eg. Pen blwydd hapus iawn iddi!

**Clwb 60**
Ar bnawn Iau y 13eg o Fawrth yn Y Carpenter's yn Lacharn daeth tuag ugain o'r aelodau ynghyd i gwmnia a dathlu dydd ein Nawddsant. Ni chawsom ein siomi gan y cawsom dderbyniad twymgalon iawn a bwyd blasus yn y cawl a'r roliau ffres cartref, y bara brith a phice ar y maen a choffi neu de i ddilyn. Roedd Rose Saer a Mary Phillips yng ngofal y Raffl gyda nifer helaeth yn ennill gwobrau.

Gwnaeth Les Murphy, y Cadeirydd anerchiad pan amlinellodd hanes ac arwyddocad amrywiol o bethau Cymreig oedd yn ddiddorol iawn ac ôl paratoi ar ei gyflwyniad. Treuliwyd rai oriau o bur fwynhad a da oedd cael bod yno.

# PENYBONT

## C Ff I Penybont

Llongyfarchiadau i aelodau a hyfforddwyr y Panto am ddod yn ail ar lefel Cymru ac am gipio Tlws cynyrchia-dau Paul Elkington am Gyflawniad Technegol Llongyfarchiadau hefyd i Daniel O'Callaghan am ennill tlws yr actor gorau, ac i Celyn Richards a Teleri James am gael eu henwebu yng nghategoriau'r Berfformwraig iau a Pherfformwraig orau.





Daniel O'Callaghan yn perfformio

THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk



Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin
Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

Yn ogystal, mae Elin Phillips wedi ei hethol yn ddirprwy lysgennad CFFI Sir Gâr. Pob hwyl yn ystod y flwyddyn Elin.



Elin Phillips gyda'i brawd Dafydd

A daeth Hannah Richards yn 3ydd fel Aelod Hŷn y flwyddyn ar lefel Cymru.

Bu'r canlynol yn cystadlu yn y Diwrnod Gwaith Maes: Olwen Roberts - Stocmon iau, Cerys N Jones - Stocmon hŷn a Gwion Jones-Howell, Siôn Evans ac Aled Thomas - Ffenso iau.

# CLUNDERWEN

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Joshua Holloway a Amy Rolinson, Penpwll, Clunderwen, ar enedigaeth mab bach Oliver Henry Holloway ar 24ain o Fawrth.

...hefyd llongyfarchiadau i Joe Morris a Eden Rose Morris, ar enedigaeth mab bach, ŵyr i Samantha a Toyo Morris.

**Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen**

Canlyniadau Diwrnod Maes

Stocman Uwch y flwyddyn: Scott Robinson - 3ydd

Fferm Ffactor 4ydd

Ffenso uwch 1af

Yn gyffredinol 4ydd

**Llysgenhadon 2025**



Llongyfarchiadau i Mari Roberts o glwb Clunderwen ar cael ei dewis yn un o'r Llysgenhadon am 2025.

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**



Cynhaliwyd cyfarfod ar 7fed o Ebrill. Bu'r siaradwraig wadd yn siarad am wahanol sbeisis a chafwyd noson ddiddorol iawn. Mis nesaf byddwn yn mynd i ymweld â gardd yn Llanfallteg.

# RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd yr oedfa gymun ar Sul, Ebrill 6ed. Pleser oedd cael cwmni Eifiona Lewis.

Dymuniadau gorau i Marlene Lewis, ar ôl cael llawdriniaeth i'w llygad yn ddiweddar.

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

# LLANDYSILIO

**Genedigaeth**

Ganwyd Ruby Olive ar 7fed o Ebrill i Declan a Catrin Morgan, Cwmffrwd. Wyres i Arwel a Ceris Llewellyn, Llandysilio a chyfnither i Elis Bryn. Wyres i Rupert a Dawn Morgan Henffordd. Llaongyfarchiadau mawr iddynt.

Llongyfarchiadau mawr i Nia Bevan a Jack Griffiths ar enedigaeth merch fach, Mali Lois a anwyd yn Ysbyty Glangwili ar 18fed o Fawrth. Wyres i Nigel a Christen Bevan o Landysilio.

**Gwellhad buan**

Dymunwn yn dda i Tina Llewellyn, Heol y Llan, Llandysilio ar ôl iddi gael triniaeth yn yr ysbyty. Gwellhad buan iddi.

**Priodas Ruddem**



Llongyfarchiadau mawr i Adrian a Julie Young ar ddathlu ei Priodas Rhuddem yn ddiweddar


**Neuadd Llandysilio**

**Bore Coffi**

**i ddathlu 80 penblwydd Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE Day)**

Bore Llun 5ed o Fai (Gŵyl y Banc)
10.00yb tan 12.00

Mynediad am ddim
Raffl


**Cydymdeimlwn** gyda Delyth Roblin a'r teulu ar farwlaeth ei mam yn ddiweddar. (Gol.)


Neuadd a Maes Chwarae
LLANDYSILIO

**Cyngerdd**

Capel PISGA Llandysilio SA66 7TF

NOS WENER 27 MEHEFIN 2025
7.30 yh
Drysau ar agor 6.45

**Côr Meibion Hendy-gwyn a'r Cylch**

**Jencyn a Lefi**

**Peggy Ann a Poppy Hammersley**

Tocynnau £12.50 y pen
Rhad ac am ddim i blant ysgol gynradd

E-bost: anna.williams2047@gmail.com
neu neges destun ar 07850 713902 neu 07788816980
a chofiwch gynnwys eich rhif ffôn


# HENLLANFALLTEG

**Penblwydd arbennig**

Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Delyth Morris, Bryntaf, Llanfallteg a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Fai 13eg.

# HENDYGWYN AR DAF

Ta



Michael Thomas, Hwlffordd, gynt o Lôn Hywel, Hendygwyn oedd y gŵr gwadd yn Te Prynhawn Cymdeithas y Tabernacl yn ddiweddar.


**HUW JONES**
**ADEILADWR**

Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf



Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

**DERI PAGE**
**CIGYDD**



Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**GT TYRES**



Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol

**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**

**☎: 01239 612814 / 07765 034705**

Cafwyd prynhawn hyfryd yn ei gwmni wrth iddo roi anerchiad am ei fagwraeth yn Hendy-gwyn cyn iddo agor y te prynhawn yn swyddogol. Gyda'r te prynhawn daeth rhaglen y gymdeithas i ben am y tymor yma a diolch i'r swyddogion am eu gwaith. A diolch yn arbennig i Dewi James sydd yn ymddeol ar ôl nifer o flynyddoedd fel trysorydd Cymdeithas y Tabernacl.

Cafwyd oedfa aelodau diddorol iawn ar ddechrau Ebrill. Testun yr oedfa oedd Rahel o Fôn. Pwy yw hi medde chi? Gwraig a bregethodd llawer yng Nghymru ac yn America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hanes ei bywyd yn rhyfeddol a gellir dysgu mwy amdani wrth edrych ar y rhyngrwyd am Rahel o Fôn neu Rachel Davies.

Mae'r Clwb Hwyl i blant yn parhau yn boblogaidd iawn a bydd dal yn cwrdd ar ôl y Pasg am 3.30 ar brynhawniau Gwener.
Dyma beth sydd ymlaen ym mis Mai a chroeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni :

Mai 4ydd: 10.30: Oedfa Gymun dan ofal Elonwy Phillips
Mai 11eg: 10.00: Oedfa Wythnos Cymorth Cristnogol
Mai 18fed: 10.30: Oedfa dan ofal Llinos Jones
Mai 25ain: 11.15: Oedfa dan ofal y gweinidog

**Penblwydd**
Dymuniadau gorau i Elizabeth White 8 Gerddi Trefychan sy'n dathlu penblwydd arbennig ar yr wythfed o Fai.

### Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill, fel arfer, yn lolfa y Clwb Rygbi. Croeshawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Claude James. Huw Davies, un o'n aelodau ffyddlon oedd ein siaradwr gwadd mis yma ond yn anffodus, oherwydd anffawd, nid oedd yn bosib iddo ymuno â ni. Dymunwyd gwellhad buan i Huw gan obeithio cawn gyfle tymor nesaf i'w wahodd i siarad â ni.

Ar fyr rybudd, fe ddaeth Verian Williams ein ysgrifennydd, i'r adwy a chafwyd noson hwylus iawn yn ei gwmni. Yr hyn oedd gan Verian yn syml oedd hiwmor. Fe ddaeth â llawer o lyfrau o dan y pennawd hiwmor – Hiwmor Ifan Tregaron, Hiwmor y Pregethwr, Hiwmor Idris Charles, Hiwmor Sir Gâr i enwi dim ond rhai. Y dasg roddwyd i'r aelodau oedd dewis un o'r llyfrau, cael gafael ar jôc a'i dweud o flaen pawb. Cafwyd noson llawn hwyl a chwerthin a diolchwyd i Verian am noson gartrefol a gwreiddiol.
Cafwyd amser a rhai manylion o'r daith ddirgel flynyddol sydd i'w chynnal ar ddydd Iau, y 1af o Fai. gan Mel Jenkins, y Trefnydd Adloniant.

Yn anffodus, nid oedd y Clwb Rygbi wedi cadw ystafell breifat i'r cyfarfod mis hwn ac o'r herwydd, penderfynwyd edrych am leoliad arall ar gyfer y tymor nesaf ym mis Medi.

### Cylch Meithrin Hywel Dda

Cynhaliwyd disgo Pasg yng Nghlwb Rygbi Hendygwyn. Diolch yn fawr i Sarah o'r Clwb am y croeso cynnes ac am feirniadu'r Cystadleuathau Pasg sef hetiau Pasg (Cylch Meithrin) a chardiau Pasg (Cylch Ti a Fi).

Roedd pawb wedi gwneud ymdrech arbennig felly roedd yn anodd iawn i ddewis enillwyr. Llongyfarchiadau mawr i bob un am gymryd rhan. Enillwyr y cystadleuaeth hetiau Pasg oedd Ethan (1af), Gweni (2il) ac Edith (3ydd). Enillwyr y cardiau Pasg oedd Caleb (1af), Tomos (2il), Anni (3ydd) a Mali (4ydd).

Diolch yn fawr i Nana's Bakes am ei rhodd caredig iawn ac i AllSortz, Bysiau Cwm Taf a Gyda'n Gilydd Hendygwyn CIC am y gobrau raffl.



Enillwyr Hetiau Pasg

Lloyd & Whyte | Community Broking
Masnachol - Amaethyddol
Moduron - Cartrefi
Cleddau Buildings
Heol yr Osraf, San Cler, SA33 4DQ
Ffôn: 01994 231548
e.bost: stclears@lloydwhyte.com

DENNIS JONES A'I DEULU
SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU
Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561

Gareth Glanville
SAER COED
Llwynpinner Fach
Hendygwyn ar Daf
SA34 0RA
Ffôn: 01994 240245
Symudol: 07779 112192
Gwaith safonol - cysylltwch am bris



Enillwyr Cardiau Pasg

**Dathlu Dewin a Doti**







**Ymweld â Fferm Forest**



Aethom ar daith anhygoel i Fferm Forest i weld yr anifeiliaid a blasu'r ysgytlaeth ffres. Diolch enfawr i Sally a'r teulu am y croeso cynnes unwaith eto ac i Bysiau Cwm Taf am ein cludo.

---

# EFAILWEN

**Capel Nebo**

Ar Ddydd Sul 23ain o Fawrth, cynhaliodd Ysgol Sul Nebo yr oedfa Bwnc flynyddol. Y thema eleni oedd 'Dathlu ein Gwahaniaethau' gyda'r plant a'r bobl ifanc yn rhoi sylw i'r ffaith bod Duw wedi creu pawb yn wahanol ar bwrpas, gan bwysleisio bod amrywiaeth yn beth da sy'n cyfoethogi'r byd; pwysigrwydd parchu, derbyn a charu ein gilydd waeth beth fo'n gwahaniaethau a thynnwyd sylw hefyd at sut y croesawodd Iesu bob math o bobl.

Roedd Pwnc Ysgol Sul yr oedolion yn canolbwyntio ar

**BAR BECA**

Rhosfach, Efailwen
**Guto Jenkins**
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh

Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh

Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316

**Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar**



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
**GWION JENKINS**
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

Matthew Pennod 20, adnodau 1-16, sef 'Y Gweithwyr yn y Winllan'. Dameg a adroddwyd gan Iesu sy'n darlunio gras a haelioni Duw tuag at bawb, waeth beth yw eu statws neu pa mor hir y maent wedi bod yn ei wasanaethu.

Yr holwr gwadd eleni eto oedd Mr Emyr Phillips. Cafwyd holi craff ganddo, yn ei arddull hwyliog ac hamddenol arferol a phawb wedi mwynhau'r trin a'r trafod. Hoffai aelodau'r capel ddiolch yn fawr i Emyr am wneud y Pwnc mor ddiddorol ac i bawb wnaeth gymryd rhan a'r rhai ddaeth i gefnogi.



Plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul gyda Emyr Phillips

## Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026

*Adroddiad Cyfarfod cyntaf Pwyllgor Apêl Efailwen, Llanglydwen, Login, Hebron a Cwm Meils*

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf ein pwyllgor apêl ar nos Fercher 26ain o Fawrth, 2025 yng nghwmni nifer o drigolion yr ardal yn Nghaffi Beca. Cadeiriodd Eurfyl Lewis y cyfarfod yng nghwmni Cleif Harpwood. Fe etholwyd swyddogion y pwyllgor lleol sef, Cydlynydd/Cadeirydd - Edryd Eynon; Trysorydd – Rhian James ac Ysgrifennydd – Ffion John gyda chymorth Begw Fussell i hyrwyddo ein digwyddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Diolch iddynt i gyd am eu parodrwydd i helpu'r achos, mi fydd yn eitha' hêr codi sawl mil o bunoedd dros y flwyddyn nesaf.

Aethwyd ati i drefnu cyfres o weithgareddau a chyfarfodydd. Dyma restr o ddyddiadau i roi yn y dyddiadur!

30ain o Ebrill – cyfrafod Pwyllgor Apel yng Nghaffi Beca am 18:30
17eg o Fai – Seremoni cyhoeddi'r Eisteddfod yn Arberth am 09:45

23ain o Fai – Bingo Apel yng Ngahffi Beca – drysau'n agor am 19:00 gyda'r bingo i ddechrau am 19:30

Mi fydd sawl digwyddiad arall dros y misoedd nesaf, cofiwch gadw llygad ar y cyfryngau cymdeithasol, posteri lleol a'r Cardi Bach am wybodaeth.

Mae modd i bob un ohonom gyfranu at yr ymgyrch drwy noddi cystadleuaeth (drwy wefan yr Eisteddfod https://eisteddfod.cymru/2026 ); neu gyfranu mewn digwyddiadau lleol. Mae hefyd modd rhoi cyfraniad misol drwy ddebyd uniongyrchol. Mae'n bwysig nodi eich ardal wrth wneud hyn er mwyn i'r cyfraniad gael ei gofrestru o dan ein hymgyrch ni.

Hoffwn ddatgan diolch i Rob James, Caffi Beca am gael defnyddio'r caffi i gynnal ein cyfarfodydd, ac am fod mor barod i ni ddefnyddio'r cyflysterau ar gyfer ambell ddigwyddiad hefyd.


Edrychwn ymlaen at eich gweld ar nos Fercher 30ain o Ebrill yng Nghaffi Beca am 18:30.












## TRELECH

Penblwydd hapus  i David Greeves,Pentrecagal ar ddathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis.

Gwellhad llwyr a buan i Ryan Evans Blaenwauntwr sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei droed yn ddiweddar.

## Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn cefnogi Prostad Cymru

Ar Nos Fawrth yr 8fed o Ebrill,cynhaliwyd cyfarfod Cenedlaethol yr Hoelion Wyth yn Nhafarn Ffostrasol.

Cyn cychwyn, cafodd John Jones, Cadeirydd y gymdeithas y pleser o gyflwyno siec o £2,000 i Prostad Cymru.


Yr arian yma oedd elw'r raffl fawr flynyddol a drefnir gan yr aelodau a'r gyngerdd a gynhaliwyd yng Ngwesty Emlyn,Tanygroes ddiwedd Tachwedd 2024, pan ddaeth parti arbennig 'Pam Lai' i'n diddanu.

Ar ran Prostad Cymru, daeth Mr.John Daniels a Mr.Jonathan Lewis i dderbyn y siec.
Wrth ddiolch, soniodd John am holl waith yr elusen a'r hyn maent wedi ei wneud ers 2012 i greu gwell adnabyddiaeth o'r clefyd peryglus yma sy'n effeithio ar un o bob saith o ddynion..
Fel nifer o glefydau eraill, os caiff ei ddarganfod yn gynnar, mae'r gyfradd gwella'n llwyr yn uchel iawn.

Ar hyn o bryd,  gwahanol ganolfannau, drwy gymorth cefnogaeth mudiadau fel yr Hoelion Wyth, mae i fyny at 400  o ddynion yn medru cael eu sgrinio mewn diwrnod, ac o ganlyniad, gall fod rhwng 15 ac 20 yn dioddef o'r clefyd heb fod yn ymwybodol o hynny.
Rydym mor ddiolchgar i Mr.John Daniels a Mr.Jonathan Lewis am eu holl waith gwirfoddol er lles y rhai sy'n dioddef.



Yn y llun gwelir John Jones, Cadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn cyflwyno'r siec  i John Daniels a Jonathan Lewis, ar ran Prostad Cymru.  Hefyd yn y llun mae Nigel Vaughan (trysorydd), Geraint Morgan (ysgrifennydd), Wmffre Defis (is gadeirydd) ac Eurfyl Lewis (llywydd).















Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Eisteddfod Gylch Cwm Taf**

Agorodd yr ysgol ei drysau ar gyfer rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd yn ogystal â'r Eisteddfod Gylch. Bu mwy o ddisgyblion yn cymryd rhan gan fod yr Urdd wedi ymestyn ein cylch cystadlu eleni.

Llongyfarchiadau i'r canlynol:
Unawd Bl. 2 ac Iau: 3ydd Leah Jenkins
Unawd Bl. 3 a 4: Elijah Jenner-Diong
Perfformiad o Olygfa: Grŵp Griffith Jones 2il.
Parti Unsain Bl. 6 ac Iau: 1af Parti Griffith Jones
Cyflwyno Alaw Werin Bl. 6 ac Iau: 1af Cadi Jones, 2il Isabella Diong Jenner.
Côr Bl. 6 ac iau: 1af Côr Griffith Jones.

**Eisteddfod Rhanbarth**

Aeth yr enillwyr ymlaen i gystadlu wedyn yn Eisteddfod Rhanbarth Gorllewin Myrddin. Llongyfarchiadau i'r canlynol:
Unawd Bl. 3 a 4: Elijah Diong Jenner 1af
Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4: Elijah Diong Jenner 1af
Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau: Cadi Jones 1af
Parti Unsain Bl. 6 ac iau: Parti Griffith Jones 1af
Parti Cerdd Dant Bl. 6 ac Iau: Parti Griffith Jones 1af
Côr Bl. 6 ac Iau: Côr Griffith Jones 3ydd
Bu tîm dawnsio gwerin Bl. 3 a 4 yn cystadlu hefyd yn yr Eisteddfod Ddawns Rhanbarthol gan ddod yn 3ydd.

Llongyfarchiadau i bob un plentyn a fu'n cystadlu yn y Rhagbrofion ac yn yr Eisteddfod ac i'r staff am roi o'u hamser i hyfforddi.



Plant gyda'i tystysgrifau



Grŵp Dawnsio Gwerin Bl. 3 a 4

**Ymweliadau**

Aeth Côr yr Ysgol i ganu yn Hen Ysgol y Bord i ddiddanu aelodau o'r gymuned mewn digwyddiad 'Cawl a Chân'.

Aeth dosbarthiadau Pwyll, Culhwch a Myrddin ar daith i Fae Caerdydd i ymweld â'r Senedd a stiwdios y BBC. Roedd yn rhan o'u gwaith thema ar 'Cymru, ein gwlad'.



Yn y Senedd

Bu'r Llysgenhadon Chwaraeon yn parhau gyda'i hyfforddiant mewn sesiwn arall gyda thîm Actif Sir Gâr yng Nghanolfan Hamdden SanClêr.

**Ymwelwyr**

Daeth cwmni 'Ynni Da' i'r ysgol i gynnal gweithdy 'Eco' gyda dosbarthiadau Hywel ac Olwen.

Hyfryd oedd croesawu Mrs Natalie Jones yn ôl atom i gynnal gweithdy barddoniaeth gyda dosbarth Pwyll. Roedd yn rhan o sesiynau llenydda taith 'Ffrindiau Bardd Plant Cymru'.



Y Tad Dorien Davies, Esgob Tŷ Ddewi yn ymweld â'r ysgol.

**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**
Trefnwyd noson o fingo i'r plant a disgo Pasg gan y CraFF. Hefyd fe dderbyniodd pob plentyn gwningen Basg yn rhodd ganddynt cyn y gwyliau. Diolch yn fawr i'r aelodau am yr holl waith trefnu eto y tymor yma.

**Cystadleuaeth Hetiau Pasg**
Bu plant y Meithrin wrthi'n brysur yn creu hetiau Pasg ar gyfer cystadleuaeth yn yr ysgol. Fe wnaeth pob un plentyn ymdrech arbennig o dda. Da iawn bawb!

**Ffarwelio**
Gyda chalon drom, daeth yn amser i ni ffarwelio gyda Mrs Wenan Rees ar ôl cyfnod o ddwy flynedd ar bymtheg gyda ni fel cynorthwydd dosbarth. Dymunwn bob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd gyda'r Cyngor Sir a diolch o galon iddi am ei holl waith caled ac ymroddiad dros y blynyddoedd. Byddwn yn gweld dy eisiau Miss Wenan!

# YSGOL BRYNCONIN

**Eisteddfod Offerynnol**
Da iawn i Caryl, Elsie a Poppy am gystadlu yn Eisteddfod Offerynnol yr Urdd ar ddydd Llun, 10fed o Fawrth. Llongyfarchiadau enfawr i Caryl am ddod yn ail ar y delyn ac i Poppy am ddod yn drydydd ar y piano. Mae hyn yn gamp a hanner gan gofio roedd y safon yn uchel iawn.

**Twrnament Rygbi'r Urdd- Blwyddyn 3 a 4 a Merched Bl.5 a 6.**
Da iawn i dîm rygbi Blwyddyn 3 a 4 a thîm merched Blwyddyn 5 a 6 am gystadlu'n dda yn nhwrnament rygbi'r Urdd ar ddydd Mawrth, 11eg o Fawrth.

**Taith Dosbarth Rhuddem i Sain Ffagan**
Braf oedd cael treulio y diwrnod yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan ar ddydd Llun, 17eg o Fawrth. Cafodd Dosbarth Rhuddem modd i fyw yn dysgu am hanes Cymru a dysgu am Ysgolion yn Oes Fictoria. Diolch i Miss Davies am drefnu'r daith ac i Miss Del a Miss Claire am ofalu am y plant.




**Eisteddfod Gylch**
Llongyfarchiadau i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Clunderwen ar ddydd Iau, 20fed o Fawrth. Roedd pawb wedi ymdrechu'n galed ac wedi cystadlu o safon uchel. Rydym yn browd iawn o waith caled y plant. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau:

**Cyntaf:**
Parti Llefaru

**Ail:**
Heti Davies – Llefaru Bl.5 a 6

**Trydydd:**
Hari Beynon – Llefaru Bl.2 ac Iau



**Gweithdy Llenyddol yng nghwmni Bardd Plant**
Braf oedd cael cwmni y bard Natalie Jones i'r Ysgol ar ddydd Llun, 24ain o Fawrth. Cynhaliodd weithdy llenyddol gyda disgyblion Dosbarth Rhuddem a chreuwyd cerddi amrywiol ar Iechyd a Lles.

**Taith Dosbarth Diemwnt a Dosbarth Emrallt**
Mi fuodd Dosbarth Diemwnt (llawn amser) a Dosbarth Emrallt i Drefach Felindre er mwyn ymweld ag Amgueddfa Wlan Cymru fel rhan o waith y tymor ar ddydd Mawrth, 25ain o Fawrth. Cafwyd hwyl yn dysgu am hanes gwlan Cymru.

**Gala Nofio**
Da iawn i bawb a wnaeth cystadlu yng ngala nofio pwll nofio Arberth ar ddydd Iau, 27ain o Fawrth. Llongyfarchiadau enafwr i bawb oedd wedi ennill gwobr mewn cystadleuaeth anodd iawn.

**Eisteddfod Sir yr Urdd**
Llongyfarchiadau i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro ar ddydd Sadwrn, 5ed o Ebrill. Roedd pawb wedi ymdrechu'n galed ac wedi cystadlu o safon uchel. Rydym yn browd iawn o waith caled y plant. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau:

**Cyntaf:**
Cynan Makepeace – Adolygiad Ffilm
Deri Niocholas – Rhyddiaith
Cân Actol

**Ail:**
Catrin Mathias – Adolygiad Ffilm
Parti Llefaru

**Trydydd:**
Cynan Makepeace – Barddoniaeth
Cynan Makepeace – Rhyddiaith
Deri Nicholas – Adolygiad Ffilm





**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau enfawr i Archie Hammersley am chwarae i dîm rygbi Ysgolion Sir Benfro.  Mae tîm Archie wedi cyrraedd y rownd derfynol o ran twrnament rygbi i siroedd Cymru. Bydd Tîm Rygbi Sir Benfro yn cystadlu yn y ffeinal ym Mis Mai yn Stadiwm y Principality, Caerdydd a dymunwn yn dda i Archie.

**Gwasnaeth Diwedd Tymor**
Braf oedd cael cynnal gwasanaeth diwedd tymor ar brynhawn Mercher, 9fed o Ebrill i ddathlu gwaith da Ysgol Brynconin. Llongyfarchiadau enfawr i Arthur Terry am ennill Tlws Clwb Ffermwyr Ifanc am ddangos ymdrech a dyfalbarhad dros y tymor.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Y Gwasanaeth Tân**
Roedd yn braf cael croesawu Sian o'r gwasanaeth tân atom i siarad gyda disgyblion dosbarth Cynin a Sien am bwysigrwydd diogelwch tân a'i rôl o fewn y gymuned. Dysgodd y plant sut i gadw eu hunain, eu teuluoedd, a'i cartrefi yn ddiogel yn ogystal â beth i'w wneud mewn argyfwng a sut i atal tanau. Roedd yn gyfle gwych i bawb ofyn cwestiynau a dysgu sgiliau bywyd pwysig.



Dosbarth Sien yn mwynhau'r sesiwn Diogelwch Tân

**Eisteddfod**
Roedd yn arbennig i weld cymaint o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau'r Eisteddfod eleni o'r rhagbrofion, i'r Cylch ar Sir.

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Llefaru Unigol Bl.3 a 4 dysgwyr: 1af Luna Wilson

Unawd Bl.5 a 6 – gydradd 3ydd Amelia Churchill

Parti Unsain: 3ydd

Da iawn hefyd i'r Grŵp Llefaru a'r Côr.



Llongyfarchiadau enfawr i Luna Wilson am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Llefaru Bl.3 a 4 dysgwyr yn yr Eisteddfod Rhanbarth ym Mro Myrddin ar ddydd Sadwrn, 5ed o Ebrill. Da iawn ti!

**Ymwelwyr**
Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Guto Llywelyn a Shirley atom i gynnal gwasanaeth i'r plant am hanes a thraddodiadau'r Pasg.

**Noson Agored**
Ar y 9fed o Ebrill cynhaliwyd Noson Agored yn yr ysgol. Hyfryd oedd cael croesawu rhieni i mewn i'r ysgol i edrych a dathlu holl waith arbennig y disgyblion yn ystod y ddau dymor blaenorol.

# YSGOL BANCYFELIN

**Diwrnod Trwynau Coch**
Da iawn i'r Cyngor Ysgol am drefnu diwrnod 'Sanau sili' ar gyfer codi arian i Comic Relief. Roedd llawer o sanau diddorol, lliwgar a gwahanol i'w gweld yn yr ysgol ar y diwrnod!

**Eisteddfod Gylch yr Urdd**



Hyfryd oedd gweld cymaint o blant yr Ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Griffith Jones San Clêr. Cafwyd llawer o berfformiadau graenus ar y llwyfan oedd yn dangos ôl dysgu ac ymarfer trylwyr. Profwyd llwyddiant mewn amryw o gystadlaethau llefaru, canu a pherfformio. Diolch o galon i Lowri Siôn am hyfforddi'r Parti Llefaru a'r ddwy ymgom – rydym mor lwcus i gael y gefnogaeth yma wrth un o rieni'r ysgol.

| | |
|---|---|
| 1af - Llefaru Bl 2 ac iau | 2il - Grŵp llefaru |
| 2il - Llefaru Bl 3 a 4 | 3ydd - Côr |
| 3ydd - Unawd Bl 3 a 4 | 2il - Parti Unsain hŷn |
| 3ydd - Unawd Bl 5 a 6 | 3ydd - Parti Unsain iau |

☆ Dau grŵp yn Perfformio Golygfa

**Eisteddfod Sir yr Urdd**
Llongyfarchiadau fil i un o ddisgyblion Dosbarth Mihangel, Ysgol Bancyfelin am gyrraedd Eisteddfod y Sir a rhoi perfformiad arbennig o 'Cwyn y Ci'. Fe ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru Bl 2 ac iau ac rydym fel ysgol yn falch iawn ohoni.

**Ymweliad Natalie Jones – Ffrindiau Bardd Plant Cymru**
Diolch o galon i Natalie Jones, un o Ffrindiau Bardd Plant Cymru, am ddod i gynnal sesiwn ysgrifennu barddoniaeth yn yr ysgol. Mwynhaodd y plant ddysgu am y genhedlaeth Windrush, am 'Hanes Bobl Liwgar Cymru', cael cyfle i flasu bwydydd o India a Jamaica ac i ddysgu symudiadau dawns newydd.



Rydym yn ddiolchgar iawn i 'Lolfa' am y llyfrau newydd i'r ysgol hefyd.

**Gweithdy Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru**
Diolch o galon i Joanna o Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru a ddaeth atom i wneud gweithgareddau yn ymwneud ag infertebratau. Cafodd y plant lawer o hwyl yn arbrofi, adnabod a chyfateb gwahanol greaduriaid sydd yn byw yn ein afonydd lleol.

**Gweithdy Dŵr Cymru**
Mwynhaodd blant yr ysgol wasanaeth diddorol iawn gan Ruth o Ddŵr Cymru ynglŷn a'r gylchred ddŵr. Yna cafodd Dosbarth Mihangel a Dosbarth Cywyn weithdai hynod o ddiddorol am y ffordd mae dŵr yn cael ei gyflenwi i gartrefi a'r ffordd mae dŵr gwastraff yn cael ei drin. Diolch o galon i Ruth am fore llawn gweithgareddau addysgiadol a chyffrous.

**Ymweliad PC Cath**
Cafwyd ymweliad diddorol ac addysgiadol iawn gan PC Cath cyn gwyliau'r Pasg er mwyn trafod 'Ffrind neu Elyn'. Dysgodd y dosbarth am bwysigrwydd ymddygiad diogel a phriodol ar-lein ac hefyd am fod yn wyliadwrus o ddieithriaid ym mywyd bob dydd.

**Ras y Lliwiau – Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Bancyfelin**
Trefnwyd 'Ras y Lliwiau' gan Gymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Bancyfelin er mwyn codi arian i'r Ysgol. Cafwyd llawer o hwyl yn rhedeg, chwerthin a thaflu lliwiau!

Diolch o galon i'r Gymdeithas am drefnu ac am y gefnogaeth barhaus.



Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**



Jones Login 1965 - 2025



| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Mai 2025** | | |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5* |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| Sad 26 | *Sioe Gerdd Joseph a'i got amryliw, CMC* | 1 |
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | **Eisteddfod a Chaer** | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon - Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Sad 4 | **Elvis Evolution a Windsor** | 2 |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd Top Hat, Caerdydd (Newydd)* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Nadolig Palas Blenheim a Windsor** | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Maw 16 | *Rob Brydon, Arena Utility, Caerdydd (Newydd)* | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ionawr 2026** | | |
| Sad 10 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| **Chwefror 2026** | | |
| Gwe 6 | **Torquay - Cynheswr Gaeaf** | 4* |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |

2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / Archebwch ar lein nawr / Llyfryn 2025 ar gael nawr!**



LYNDON GEORGE




**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**







**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



"Lluniwch gerdd a seiniwch gân
Er budd yr henfro gyfan"

Eisteddfod Maenclochog

## Neuadd Gymunedol Maenclochog

Cynhelir y **77ain**

# EISTEDDFOD GADEIRIOL

(Dan nawdd Eglwysi Tabernacl a Llandeilo)

Dydd Llun 5ed o Fai 2025

i ddechrau am 11 o`r gloch

(Ni fydd y cystadlaethau agored yn dechrau tan 12 o'r gloch
Ni fydd y cystadlaethau i rai dros 12 oed yn
dechrau cyn 3 o'r gloch)

Llywydd Anrhydeddus: Y Prifardd EIRWYN GEORGE
Llywydd y Dydd : MRS MARILYN LEWIS, Treletert

BEIRNIAID
Cerdd: MEINIR JONES PARRY, BMus, LRSM, Caerfyrddin
Llefaru a Llên: Y Prifardd GWENALLT LLWYD IFAN, Talybont
Llên y plant: ANN MORRIS, Maenclochog
Arlunio/Ffotograffiaeth: ALUN IFANS, Maenclochog
Cyfeilydd: MRS HEFINA JONES ALCM, Llangynin
07891 593449
Mynediad: Oedolion - £5.00. Plant dan 16 - am ddim

YSGRIFENYDDION
Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, SA66 7XN
Ffôn: 01437 532431
Carol Nicholas, 1 Castle View, Arberth
07971 073864

BYDD LLUNIAETH AR WERTH



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 28ain Ebrill | Yr HYFRYD SANDOWN ar YNYS WYTH | £465 | 5 Diwrnod |
| Llun 5ed Mai | "Wedgwood Wonders, Trentham Treats & Cheshire Charms" | £580 | 5 Diwrnod |
| Maw 6ed Mai | GUERNSEY | £1,100 | 6 Diwrnod |
| Llun 12fed Mai | Manchester - Concorde, Lowry a Gardd Godidog RHS | £505 | 5 Diwrnod |
| Sul 18fed Mai | "CALL THE MIDWIFE" a DINAS HYNAFOL CAINT | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 19eg Mai | TAITH DDIRGEL MIS MAI | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 23ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £440 | 3 Diwrnod |
| Sul 25ain Mai | TAITH ANTUR FAWREDDOG yr ALBAN | £1,750 | 12 Diwrnod |
| Gwe 30ain Mai | PENWYTHNOS "ABBA VOYAGE" yn LLUNDAIN | £410 | 3 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mehefin | MINEHEAD a RHEILFFORDD "WEST SOMERSET" | £455 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Mehefin | MEYSYDD y BRWYDRO yn NORMANDI | £825 | 5 Diwrnod |
| Sul 15fed Mehefin | GOGONEDDAU CUDD yr IWERDDON | £775 | 6 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mehefin | GERDDI a GRAWNWIN SURREY | £440 | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Mehefin | CASTLE HOWARD a DINAS HYNAFOL EFROG | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mehefin | WEYMOUTH | £405 | 4 Diwrnod |
| Maw 1af Gorffennaf | LLANDUDNO a YNYS SEIRIOL YNYS MON | £585 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Gorffennaf | MORDAITH ar AFONYDD RHINE a MOSELLE yn yr ALMAEN | £1,950 | 9 Diwrnod |
| Sad 12fed Gorffennaf | CESTYLL a GWARTHEG UCHELDIR YR ALBAN | £720 | 6 Diwrnod |
| Iau 17eg Gorffennaf | Taith Fyr I'r COTSWOLDS | £310 | 3 Diwrnod |
| Llun 21ain Gorffennaf | GORORAU CYMRU | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Gorffennaf | AGER, JIN a'r NEW FOREST yn HAMPSHIRE | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**
**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**
**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**



Bwyty'r Roadhouse Restaurant

Cylchfan Heol Llanboidy, Hendygwyn

Agor bob dydd o 8y.b. - 10y.h.
*Brecwast, cinio a bwyd gyda'r nos*

*Arlwyo ar gyfer unrhyw achlysur arbennig*

Ffôn: 01994 241193





J. B. OWEN

LLOGI PEIRIANNAU

*Golygfa*
*Llandissilio*

Ffôn: 01437 563693
07966 549623





EUROPA

FFASIYNAU GWALLT

Heol y Pentre, San Clêr

*Mae yna groeso i'r gwŷr hefyd*



*Wendy a Dawn*

NHF

Ffôn: 01994 230462

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2025

## Cefndir Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

Ers 1922 yn ddi-dor mae’r broses flynyddol ar Fai 18fed o anfon neges ar ran bobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Does dim un gwlad arall yn y byd wedi llwyddo i wneud hyn, gan oroesi rhyfeloedd byd a newidiadau sylweddol mewn dulliau cyfathrebu, o Morse Code i radio a'r gwasanaeth bostio, i'r rhwydweithiau digidol heddiw.

Y Parch Gwilym Davies o Gwm Rhymni oedd arloeswr y Neges. Roedd yn weinidog gyda’r Bedyddwyr, yn heddychwr mawr ac yn flaenllaw wrth se-fydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac yn ddiweddarach UNESCO. Credai mewn dod â phlant y cenhedloedd ynghyd, ac fe benderfynodd Syr Ifan y dylai’r Urdd ymuno gyda’r fenter o gyhoeddi’r neges er mwyn dileu’r anwybodaeth a’r rhagfarnau a oedd yn bodoli rhwng cenhedloedd y byd.

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn canolbwyntio ar **DLODI.**


Gyda'r argyfwng tlodi plant presennol i'w weld yng Nghymru ac ar draws y byd, mae'r Urdd a phobl ifanc Cymru wedi dewis canolbwyntio ar y mater hollbwysig hwn.

Gydag un ym mhob tri o blant a phobl ifanc Cymru yn byw mewn tlodi, mae Neges Heddwch 2025 yn datgan yn glir yr angen am newid.

Daw newid a gweithred o’r gymuned yn gyntaf drwy roi llais i bawb. Galwn ar y bobl sydd mewn pŵer ar draws y byd i feddwl ac ystyried cenedlaethau’r dyfodol.



**Crëwyd y neges eleni gan aelodau’r Urdd a myfyrwyr o Goleg y Cymoedd gyda chefnogaeth Katie Hall o’r band Chroma, elusen Achub y Plant a'r dylunydd graffeg Steffan Dafydd.**




Mae pobl ifanc sy’n profi tlodi
yn gwybod y gwir.

Ni fel coed sy’n plygu
ein cyrff tuag at y goleuni.

Mae gennym wreiddiau
sy’n ymestyn
yn ddwfn drwy galon
ein cymunedau.

Mae pawb yn haeddu
byw mewn cymuned
sy’n lleddfu ein dagrau.

Dyma ein hawl.
Dyma ein bywydau.
Dyma ein llais.

Mae’n cymryd pentre’
i fagu plentyn.

Ben bore,
bydd y niwl yn clirio,
bydd y byd yn deffro.
Bydd y byd yn gwrando.

Bydd deilen newydd yn agor.
Bydd gobaith.
Byddwch yn gwrando ar ein llais.

Rhaid edrych
ar ôl y bobl ifanc
sy’n dod ar
ein hôl.

Mae’n cymryd pentre’
i fagu plentyn.
Dyma ein hawl.

Byddwch yn bentref i ni.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos,
Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD’s*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa
Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich
presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

# GŴYL FEL ‘NA MAI - CRYMYCH 2025

Ymhen ychydig wythnosau, ar ddydd Sadwrn, 3 Mai, 2025, fe fydd Prifwyl y Preselau yn cael ei chynnal am y pedwerydd tro ar safle Frenni Transport ym Mharc Gwynfryn, Crymych, ac mae’na groeso i bawb.

Mae’r arlwy cerddorol eleni yn rhagorol a dweud y lleia, gyda nifer fawr o enwau mwyaf amlwg y sîn Gymraeg yn ymddangos ar lwyfannau’r Ŵyl.

**Llwyfan Foel Drigarn** o 1.15yp tan yr hwyr

Talentau lleol **Côr Ysgol Bro Preseli** a **Ch**ôr Ysgol Cilgerran. **Dewin** enillwyr grŵp gorau Gwobrau Ail Symudiad 2025. Croesawn y grŵp gwerin roc cyffrous **Taran** i’r **Ŵ**yl am y tro cyntaf, cyn i’r meistri roc trwm **Mattoidz** godi’r tô. Nesa i’r llwyfan fydd yr egnïol, swynol **Mali Haf,** ac wrth iddi droi’n gyfnos bydd y gantores a’r gyfansoddwraig doreithiog o Fôn, **Meinir Gwilym** a’i band yn ein diddanu. Yn dilyn ceisiadau lu, byddwn yn croesawu’r grŵp poblogaidd, **Gwilym** unwaith yn rhagor i Grymych, ac i goroni’r cwbwl fe fydd yr anhygoel **Yws Gwynedd** a’i fand yn cloi’r **Ŵ**yl eleni.

**Llwyfan Y Frenni Fawr** 1.35yp tan 19.10yh

Yn ymddangos am y tro cyntaf eleni, **Côr Rocesi’r Fro** dan arweiniad Einir Dafydd, yna blas o gerddoriaeth yn nhraddodiad Django Reinhardt gan **Llandjango**. Nesa, fe fydd enillydd gwobr unigol Gwobrau Ail Symudiad, y gantores **Danny Sioned** yn ein diddanu cyn i’r hen bensiynwr o rocyr **Cleif Harpwood** ein hatgoffa o rai o ffefrynnau’r 70au. Cyfoes a chyfredol iawn yw cerddoriaeth **Lafant** , grŵp sydd wedi datblygu’n aruthrol yn ystod y flwyddyn ddwetha. Yn cloi perfformiadau Llwyfan Y Frenni Fawr fydd y band seicadelig poblogaidd o Ben Llŷn, **Pys Melyn**.

Yn arwain gweithgareddau’r llwyfannau eleni bydd y gyflwynwraig a’r roces leol, **Mari Grug**.

Mae Gŵyl Fel ‘na Mai yn ŵyl i’r teulu cyfan ac yn ogystal â’r wledd o gerddoriaeth a ddarperir i oedolion mae ‘na lu o weithgareddau amrywiol ar gael yn y yr **ardal blant** ar gyfer ein hymwelwyr ifanc.

Cofiwch bod ‘na far trwyddedig ar y safle gydol yr **Ŵ**yl trwy gydweithrediad Clwb Rygbi Crymych a bar Jin newydd i’r **Ŵ**yl eleni gan In The Welsh Wind a bydd digonedd o luniaeth amrywiol gan arlwywyr lleol.

Bydd ‘na barcio ar safle Frenni Transport, ac ar leoliadau cyfagos o fewn i Barc Gwynfryn. Os ydych am wersylla neu letya yn eich cartref symudol dros yr **Ŵ**yl, yna mae ‘na ddarpariaeth ar eich cyfer.

Gyda chymaint i’w fwynhau, does dim rhyfedd bod tocynnau’n prinhau. Felly, hastwch i archebu eich tocyn chi cyn gynted ag y bo modd. Ewch i **felnamai.cymru** am ragor o wybodaeth. Peidiwch â cholli mas! Dewch i Joio mas draw!!







HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus iawn i ti Celt yn 3 oed ar y 27ain o Fawrth. Joia'r dathlu! Cariad mawr, Mam, Dad, Tomos a'r teulu i gyd xxx



Penblwydd Hapus i Twm Elias fydd yn dathlu ei benblwydd yn ddwy oed ar Fai'r 18fed. Cariad mawr wrth mam a dad, mamgu a dadcu Lluest, mamgu a dadcu Dinas, a'r teulu i gyd xx

## Y Dreth Fferm Deuluol: hoelen arall yn arch amaeth yng Nghymru?

Mae amaeth yn un o gonglfeini'r economi ac yn wir o'r gymdeithas yn gyffredinol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae ein ffermydd teuluol yn cynnal ffordd o fyw a fu mewn bodolaeth ers canrifoedd, yn cynnal bywyd cymunedol yn ei holl amrywiaeth ac wrth gwrs yn cyfrannu'n helaeth i'r economi leol. Ymhellach, mae 43% o weithwyr y sector yn siaradwyr Cymraeg, yr uchaf o unrhyw ddiwydiant yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am gynnal cymunedau Cymraeg yn y rhan helaethaf o gadarnleoedd traddodiadol yr iaith.

Dyma pam mae cymaint o bryder gennyf i a Phlaid Cymru dros effeithiau polisi Llywodraeth San Steffan i newid y dreth etifeddiaeth ar gyfer asedau amaethyddol – yr hyn a elwir yn 'Dreth Fferm Deuluol.'
Dyma hefyd pam yr arweiniodd Llŷr Huws Gruffydd, Aelod Plaid Cymru o'r Senedd a llefarydd ein plaid dros faterion gwledig, ar ddadl yn y Senedd yn ddiweddar yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio eu "partneriaeth mewn grym" i bwyso ar Lywodraeth y DU i oedi cyflwyno'r dreth hyd nes y byddant wedi cynnal ymgynghoriad ac adolygiad economaidd trylwyr o'i effaith ar ffermydd gweithredol.

Rai wythnosau yn ôl, fe ges i ac Ann Davies, Aelod Seneddol San Steffan dros Gaerfyrddin, sgwrs yn Llandeilo gyda chynrychiolwyr o NFU Sir Gâr a Sir Benfro ynglŷn â'r bygythiad mae'r newid polisi arfaethedig i dreth etifeddiaeth yn ei olygu iddyn nhw.

Ymhlith yr aelodau oedd yn bresennol oedd cynrychiolwyr o'r genhedlaeth ifanc, sef y rhai fydd yn cael eu heffeithio fwyaf o bosibl gan y dreth. Roedden nhw dan deimlad mawr yn adrodd am eu pryderon a'u hofn o fethu talu'r dreth a methu parhau ag olyniaeth eu teuluoedd ar y tir, oedd yn ymestyn yn ôl dros nifer fawr o genedlaethau. Roedd e'n brofiad torcalonnus.

Fe ddwedon nhw beth rwyf wedi ei glywed gan nifer fawr o ffermwyr yn fy rhanbarth dros y misoedd diwethaf, sef bod hwn yn hoelen arall yn arch y sector amaeth yng Nghymru, ac yn ychwanegu at y llu o heriau eraill y mae'r sector yn ei wynebu ers blynyddoedd lawer, gan gynnwys yr acronymau arswydus SFS, NVZs a TB. Gall ychwanegu'r dreth etifeddiaeth at y rhestr wthio nifer fawr o'r ffermydd hyn dros y dibyn, gan arwain at werthiant tir, gwaethygu ansefydlogrwydd ariannol, a thanseilio cwmnïau teuluol, rhyng-genedlaethol sydd wedi gweithio eu tir ers cyn cof.

Cymerwch, fel enghraifft ddamcaniaethol, fferm y mae cwpl oedrannus yn ei redeg gyda chant o wartheg a dwy fil o ddefaid dros wyth can acer, sydd ond yn ennill digon i gynnal ei hun a thalu costau. Mae'n fodel digon cyffredin yn fy rhanbarth, ac un y bydd nifer yn ei hadnabod. Cymerwch fod y fferm yn cael ei hetifeddu gan blant y cwpl, ac mai ei werth – rhwng y tir, yr adeiladau, y peirianwaith a'r da byw – yw £4.8 miliwn. Gyda'r dreth newydd, byddai'n rhaid i blant y cwpl ganfod £43,000 y flwyddyn am ddeng mlynedd er mwyn talu'r £430,000 sy'n ddyledus i'r Trysorlys. Sut ar y ddaear y byddai talu hyn yn bosibl heblaw am werthu tir ac eiddo, gan fygwth dyfodol y busnes yn gyfan gwbl?

Mae eraill – gan gynnwys Llywodraeth y DU – wedi mynd ati i chwarae ei effaith i lawr, a dweud mai canran gymharol fychan o ffermydd fydd yn cael eu heffeithio: rhyw 27%, medden nhw. Ond, mae'n werth nodi bod gwaith ymchwil yr NFU yn dangos bod bylchau mawr yn y ffordd mae hyn wedi cael ei gyfrifo, ei fod yn seiliedig ar hen ddata sy'n gamarweiniol, ac mai 75% o ffermydd yw'r gwir ffigwr.

Mewn ffordd, dyma'r broblem sylfaenol, sef nad oes gennym lawer o syniad beth fydd goblygiadau'r newid polisi yma, gan nad oes asesiad economaidd trylwyr o'i effaith wedi'i gyflawni.

Yn anffodus, daw hyn fel rhan o batrwm y mae ffermwyr yn fy rhanbarth yn ei deimlo: bod diffyg dealltwriaeth yng nghoridorau grym o'r realiti y maen nhw'n ei wynebu. Dydy'r sefyllfa hon ddim yn ddigon da, ac mae'n rhaid i effeithiau polisïau fel hwn, sydd â'r perygl o danseilio cynifer o'n ffermydd a'n cymunedau, gael eu hasesu'n llawn cyn cael eu cyflwyno.

***Cefin Campbell,***
***Aelod Plaid Cymru o'r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru.***

CYFRES Wenfro

# Oen Glanwen

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Yn y gwanwyn, mae Glanwen, y ddafad, wrth ei bodd yn gwylio'r holl ŵyn bach yn prancio yn y caeau.

**Fedrwch chi ddarganfod oen bach Glanwen ymysg yr ŵyn swnllyd?**







**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/05/25**

**Ateb Cystadleuaeth Y Môr Melyn: 36 o gennin Pedr oedd yng ngardd Iet-wen.**

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

# Clwb Rygbi San Clêr

Wedi rhai wythnosau o seibiant fe deithiom i Ddinbych-y-pysgod ar 29 Mawrth i chwarae gêm ola’r tymor yn erbyn y clwb o’r dref. Roedd Dinbych-y-Pysgod yn dal i lygadu dyrchafiad, fel Aberystwyth ac roedd y tîm wedi bod yn chwarae’n dda.

Roedd anafiadau yn peri problemau i ni ac roedd hynny’n dangos yn ein perfformiad. Ond fe ymdrechodd ein tîm hyd yr eithaf yn erbyn tîm cryf Dinbych-y-Pysgod. Roedd hi’n 26-0 hanner amser, ac fe aeth y tîm cartref ymlaen i ennill 51-0. Roedd hwn yn amlwg yn ganlyniad anodd i ni wedi i ni berfformio’n dda yn ystod ein tymor cyntaf yn Adran Un y Gorllewin. Ac rydym yn dal i fod yn drydydd yn y tabl y tu ôl i Aberystwyth a Dinbych-y-Pysgod. Mae Aberystwyth bellach wedi eu dyrchafu.

Mae’n amser i bwyso a mesur, a gyda 10 o’r garfan wedi methu â chwarae mewn gemau diweddar, rydym siŵr braidd yn croesawu bod y tymor wedi dod i ben, er iddo orffen ynghynt na’r disgwyl.

Gallwn fod yn falch o’n naw buddugoliaeth, un gêm gyfartal ac wyth colled eleni. Bydd cyfle nawr i ailadeiladu ar gyfer y tymor nesaf. Rhoddom ddiolch i’n prif hyfforddwr Rhodri Jones am ei wasanseth fel hyfforddwr a chwaraewr yn ystod y pum tymor diwethaf, wrth iddo ildio’r awenau ar ôl sicrhau dyrchafiad ddwywaith o’r bron.

**Rygbi’r ieuenctid**

Ar 22ain Mawrth teithiom i Glwb Carmarthen Athletic a sicrhau buddugoliaeth 20-28.

Roedd y gêm nesaf oddi cartref yn erbyn Llandeilo yn rownd gynderfynol Cwpan Sir Gaerfyrddin ar 29ain Mawrth. Roeddem ar y blaen hanner amser ac roedd hi’n 19-20 gyda phum munud yn weddill cyn i Landeilo gael cais cyn y chwiban olaf a’i gwneud hi’n 26-20.

Mae’r bechgyn wedi gwneud yn dda eleni o dan arweiniad y prif hyfforddwr Scott Newton a’i gyd hyfforddwyr.

Rydym yn dymuno’r gorau i griw Dyffryn Taf yn rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru yn erbyn Hwlffordd. Bydd y gêm yn cael ei chynnal yn Llanymddyfri.

Hefyd rydym yn dymuno pob llwyddiant i Rhys Jones wedi iddo gael ei ddewis yn nhîm y Welsh Crawleys a fydd yn herio tîm Ysgolion Annibynnol Cymru yng Ngholeg Crist, Aberhonddu.

A bydd ein hail dîm yn cwblhau eu tymor yn Felinfoel ar 3ydd o Fai, yn rownd gyn derfynol Rhanbarth Llanelli. Pe bai’r tîm yn ennill, yna byddai’r rownd derfynol ym Mharc y Sgarlets ar 17eg o Fai. Pob lwc iddynt!

*Gwyndaf Williams / Lluniau: Chris Rees*





Gêm olaf y tymor erbyn Dinbych y Pysgod


FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444
01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

Celia Vlismas Optegydd
Castell Newydd Emlyn
01239 711888
♦
Arberth
01834 861373



www,vlismas-opticians.co.uk
Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Edrychwn ymlaen i'ch gweld

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com



# CHWARAEON
## Clwb Pêl-droed Llanboidy



**Tymor 2024-25**
Mae tymor 2024-25 yn mynd yn ei flaen i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae ambell gêm yn ystod mis Mawrth a dechrau Ebrill yn ogystal â'n hadran iau. Er hyn, dim ond ambell gêm sydd ar ôl bellach.

**Tîm 1af**
Mae ein tîm cyntaf, sydd yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25, wedi chwarae tair gêm, gan golli tair. Er hyn, gyda ond un gêm ar ôl, maent yn eistedd yn y 5ed safle yn y gynghrair.

Mawrth
15fed: Llanboidy 1-4 Llambed (Geth Scourfield)
29ain: Llandysul 3-0 Llanboidy
Ebrill 5ed: Llanboidy 1-2 Ser Dewi (Daf Jones)

**2il Dîm**
Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Un gêm mae'r ail dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf, gan golli'r un yma. Gyda dwy gêm yn weddill yn y gynghrair, maent yn eistedd yn yr 8fed safle.

Mawrth 15fed: Maesglas 4-0 Llanboidy

Bydd ein hymarferion yn parhau bob nos Lun ar Astro Ganolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8-9yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**
Mae'r tymor hefyd yn parhau i'n hadran iau. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y misoedd diwethaf. Mae nifer o gemau wedi' chwarae ar foreau Dydd Sadwrn, mae'n braf gweld datblygiad ein chwaraewyr ifanc. Mae nifer o'r timau yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn amryw o gystadlaethau dros yr Haf.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*



Tîm Dan 12 y Clwb yn mwynhau ar ôl gêm



Tîm Dan 10 (A) y Clwb yn mwynhau ar ôl gêm



Tîm Dan 12 y Clwb yn mwynhau ar ôl gêm



Tîm Dan 10 (B) y Clwb yn mwynhau ar ôl gêm